| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Ionawr 2017 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Hysbysiad o Ardystiad Cyfrifon 2015/16** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darparu'r Pwyllgor gyda hysbysiad ffurfiol fod y broses ardystio archwilio ar gyfer Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi ei chwblhau.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

I roi gwybod i'r aelodau bod proses ardystio Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi dod i ben yn ffurfiol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Dylai aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol nodi bod proses ardystio cyfrifon wedi dod i ben yn ffurfiol o ran Datganiad Cyfrifon 2015/2016 (wedi'i gynnwys er gwybodaeth fel Atodiad 1).

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae rhan o'r broses archwilio statudol yn caniatáu i'r cyhoedd archwilio'r cyfrifon ac yn gwahodd partïon â diddordeb i godi cwestiynau a gwrthwynebiadau am drafodion o fewn y flwyddyn ariannol a/ neu godi unrhyw fater perthnasol i'r archwiliad ac y byddai ei adrodd o les i'r cyhoedd. Codwyd cwestiynau ynghylch nifer o bynciau yn uniongyrchol gyda'r cyngor a chyflenwyd gwybodaeth a chopïau o ddogfennau a gohebiaeth amrywiol. Fe wnaeth y cyngor gyflawni ei ofynion yn hyn o beth. Yn dilyn hynny, codwyd rhai o'r un materion yn ffurfiol fel gwrthwynebiadau o dan yr un broses gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar 27 Medi 2016. Ar yr adeg y cymeradwywyd y cyfrifon gan y cyngor ym mis Medi 2016, roedd Swyddfa Archwilio Cymru yn dal mewn gohebiaeth gyda'r aelod o'r cyhoedd a oedd wedi codi gwrthwynebiadau.

Gellir cadarnhau nawr bod pob gohebiaeth wedi dod i ben a'r materion wedi'u datrys. Ni arweiniodd unrhyw un o'r gwrthwynebiadau a godwyd yn rhan o'r broses arolygu gyhoeddus at newid y ffigurau na'r nodiadau ategol a ddatgelwyd yng nghyfrifon 2015/16.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r broses archwilio allanol flynyddol yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Er nid oes unrhyw oblygiadau cost ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i'r adroddiad hwn, roedd yr amser a gymerwyd i ymateb i'r cwestiynau a'r gwrthwynebiad yn cynnwys amser ychwanegol staff y Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**
Amherthnasol.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi diweddaru Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) ac uwch aelodau'r Gwasanaeth Cyllid ar y cynnydd drwy gydol y broses. Mae'r adran Gyllid a gwasanaethau eraill y cyngor wedi gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru trwy ddarparu'r holl wybodaeth berthnasol.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**
Ni wnaeth y materion a godwyd o dan gylch gwaith y cyhoedd yn archwilio cyfrifon arwain at unrhyw newid i'r cyfrifon neu unrhyw faterion llywodraethu ehangach.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**
Dylai'r broses archwilio amlygu unrhyw risgiau sylweddol ac ymateb y rheolwyr i fynd i'r afael â'r risg neu ei lleihau. Mae'n bwysig bod y broses archwilio yn dryloyw ac yn caniatáu ar gyfer y broses archwilio gyhoeddus a'i hwyluso.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn i'r Cyngor sefydlu trefniadau rheoli ariannol priodol. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Penodedig gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.